COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Lun, Gorffennaf 25ain, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant yn yr eitemau isod a gadawont y cyfarfod:

- Gwilym Hughes – Eitem 8. Materion Hawliau Tramwy – Llwybrau 17 a 18 Mynydd Cilan – perchennog tir ger yr olaf
- Robert M. Jones ac Owen Hefin Roberts – Eitem 9. Gohebiaeth h) Ceisiadau Ariannol – y ddau'n aelodau o Bwyllgor Treialon Cŵn Defaid Aber-soch a Llanengan.

Gadawodd y Clerc y cyfarfod pan drafodwyd Eitem 9. Gohebiaeth ng) Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch, oherwydd ei chysylltiad â theulu'r ymgymerwr.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Fehefin 8fed a Gorffennaf 6ed, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0629/39/LL Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol cyn ei drafod heno, er derbyn copi o'r caniatâd gwreiddiol yn dangos yr amodau. Mynegwyd siomedigaeth yn y dyfarniad a phenderfynwyd y dylid ysgrifennu i ofyn am eglurhad, gan ei fod yn ddechrau cynsail i unedau gwyliau cyffelyb ac os oes newidiadau i'r Ddeddf Cynllunio iddo fod wedi ei ganiatáu**

C16/0638/39/LL Dyluniad Diwygiedig i estyniad a ganiatawyd gan Ganiatâd Rhif C14/0215/39/LL – Cilfan, Lôn Gwydryn, Aber-soch – **Derbyniwyd eglurhad nad oedd rhai agweddau o'r adeilad yn cydymffurfio â'r cynlluniau a ganiatawyd ac, o'r herwydd, cynghorwyd yr ymgeisydd i gyflwyno cynllun cywirach i'r Cyngor, ynghyd â gohirio unrhyw ystyriaeth ar y mater hyd nes derbynnir un cywir; ailymgynghorir am sylwadau ac anfonir y cynlluniau blaenorol yr un pryd. Gofynnwyd pam goediwyd y to – a yw hyn yn rhan o'r cais diwygiedig newydd?**

4. MATERION YN CODI

a) Toiledau Cyhoeddus

i) *Tyddyn Callod, Aber-soch*

Parhaodd y trafferthion â drws toiledau'r dynion ac nid oedd un y merched yn gweithio'n iawn ychwaith. Gofynnwyd i'r peiriannydd ddod draw ar gost o £290.00 + TAW yn cynnwys y darn angenrheidiol ar gyfer drws y dynion. Torrwyd handlen y drws hwnnw gan ddyn a fethodd â dod allan – ceisiodd fynd allan trwy'r ffenest gefn hefyd! Ni welodd y peiriannydd un wedi'i dorri mor ddrwg. Bu cryn oedi derbyn un newydd (£50.00 + TAW) – eglurwyd wrth WBW sut i'w osod i arbed mwy o gostau. Collwyd cryn dipyn o arian yn ystod y cyfnod yma – 60c yn unig a gasglwyd o doiledau'r dynion. Penderfynwyd cysylltu â Gareth Jones, Rheolwr y Cynllun, i gwyno am y trafferthion a gafwyd a gofyn a dderbyniodd rai eraill am ddrysau cyffelyb, o gofio iddynt gostio cymaint.

ii) *Toiledau Cyhoeddus Gwynedd*

Derbyniwyd cais oddi wrth y Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn fodlon cyfrannu'n ariannol a dod i bartneriaeth â Gwynedd er mwyn cynnal toiledau'r gymuned yn ystod 2017 – 2018 a'i ymestyn i'r dyfodol. Disgwylir cyfraniad o £10,000 at gynnal pedwar toiled, sef y Bont (£10604.62 – ar agor trwy'r flwyddyn), Golff (£6345.18 – tymhorol), Machroes (£4509.68 – tymhorol) a Mynytho (£2594.68 – tymhorol).

Mynegodd y Cyng. Wyn Williams y dylai Cyngor Gwynedd gymryd i ystyriaeth y cymerodd y Cyngor hwn ofal o un o'r toiledau a fwriadai ei gau a dweud y gwariwyd £80,000 ar eu hadnewyddu. Penderfynwyd gofyn am ddadansoddiad manylach o'r costau ar gyfer pob toiled ac a ystyriwyd gosod peiriannau talu arnynt, yn ogystal â nodi mai ar Fedi 14eg y bydd cyfarfod nesaf y Cyngor – ymestynnwyd y dyddiad ymateb o Awst 1af i Fedi'r 9fed.

b) Gwefan y Cyngor

Atebwyd ymholiadau ble'n union oedd angen gosod rhai o'r atodiadau a anfonwyd.

c) **Glanhau Afon Soch**

Derbyniwyd cais yn gofyn am gopi caled o'r cynllun i'w drosglwyddo i Dic, gyrrwr Roberts Ffestiniog, er y byddai modd i'r cwmni ei argraffu o'r atodiad a anfonwyd ato; ni dderbyniwyd ymateb pellach.

ch) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

i) Cynllun Tai – bwriedir cysylltu â'r datblygwyr i ofyn a benderfynwyd ar yr enw, gan fod y gwaith ar y safle yn tynnu at ei derfyn.

ii) Ni dderbyniwyd ymateb i'r cais am Wayleave y cêbl sydd ar dir y Cyngor – amheua'r Clerc nad yw'r swyddog a gysylltodd â hi'n dal i weithio i'r cwmni; anfonir llythyr i holi.

iii) Trefnwyd dyddiad ac amser i wneud y gwaith profi dyfnder/caletwch ar ormod o fyr rybudd i'r contractwr ac, o ganlyniad, mae angen aildrefnu – ni wnaed hyd yma. Derbyniwyd eglurhad am yr anfoneb, ynghyd â chopi o'r dyluniadau a addawyd yn y cyfarfod safle mis Mai – penderfynwyd bod rhaid ei thalu gan ei fod am waith a wnaed eisoes (gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Mynegodd y Cadeirydd ei bryder am y cynllun, yn arbennig y llwyfan bysgota oherwydd y gallai plentyn ddisgyn i'r afon ac awgrymodd efallai y buasai'n haws pe'i gosodid ychydig i'r dde (llai o bellter at lan yr afon).

d) **Gohebiaeth 8c) Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016**

Anfonwyd y ddogfennaeth at BDO, Yr Archwilwyr Allanol, yn Southampton.

dd) **Cyng. John B. Hughes – Tai Fforddiadwy Cornwall, Mynytho**

a) Ni chynhaliwyd y prynhawn agored yn Neuadd Mynytho oherwydd teimlwyd bod angen amser i'w hysbysebu yn iawn er mwyn i bawb fod yn ymwybodol ohono. Rhoddwyd erthygl a hysbyseb yn *Llanw Llŷ*n y mis yma ond, er y dosbarthwyd taflenni o amgylch yr ysgolion lleol, deuddydd o 'rybudd' a gafwyd ac ni ymwelodd cymaint â hynny â'r cyfarfod. Mynychodd y Cadeirydd, WG, AJ a'r Clerc a phwysleisiwyd bod angen hysbysebu'r tai, gan y bu cryn wrthwynebiad i'r prisiau a gyhoeddwyd yn wreiddiol ac, o'r herwydd, y tynnodd sawl un a ddangosodd ddiddordeb cychwynnol eu cais yn ôl. Yn dilyn cael eglurhad o sut gweithia'r system, cytunwyd ei fod yn gynllun arbennig o dda. Caiff y darpar berchnogion ddewis eu ceginau/ystafelloedd ymolchi eu hunain hefyd. Cynigiwyd i aelodau'r Cyngor ymweld ag un o'r tai, pan fydd wedi'i gwblhau ym mis Medi. Dywedodd y Cadeirydd yr holodd Arfon Huws, Hwylusydd Tai Gwledig, a oes modd ewyllysio'r tai ond, ni wyddai'r ateb a chredai ei fod yn gwestiwn da i'w ofyn. Ymholai ac anfonid yr ateb/eglurhad at y Clerc pan dderbynnid un.

b) Gofynnwyd am farn y Cyngor ar enwi/rifo'r tai newydd, sef un ai parhau â rhifau yr ystád bresennol neu ei henwi a'i rhifo fel un newydd; penderfynwyd mai parhau â'r rhifau presennol fuasai orau.

e) **8. Gohebiaeth a) Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol***

Atebwyd yr ymholiad os oes angen enwi'r aelodau er na thalwyd lwfansau a threuliau iddynt – dim yn ddigonol; dychwelwyd y ffurflen ac fe'i chyhoeddir ar y we a'r hysbysfyrddau.

ii) ***Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018***
Ni thrafodwyd cyflog y Clerc.

f) **8. Gohebiaeth ch) Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol – Diwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau**
Anfonwyd copi o'r cofnodion yn nodi y mabwysiadwyd yr uchod.

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Dymchwel Tai yn Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio, Aelodau Seneddol na'r Cynulliad Lleol.

b) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ymwelodd yr Uwch Swyddog Gorfodaeth â pherchennog Castell i ddatgan pryder y Cyngor am y fynedfa a datgan y byddai'n anodd cefnogi ei gais i'w chadw. Ymatebwyd drwy ddweud fod mynedfa droed ar safle un cerbydol flaenorol ac y cyflwynai gais Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i'w chadw ac y gwnâi hynny'n fuan –
ni dderbyniwyd un hyd yma.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Dŵr Cymru – Dŵr a Charthffosiaeth yn dod o 'fanol' ger Bryncelyn Isaf, Cilan, a Than-y-Bryn, Sarn Bach**
Derbyniwyd e-bost drannoeth cyfarfod mis Mehefin yn nodi y "dad-siltiwyd cyn cwblhau'r arolwg teledu cylch cyfyng ar y llinell. Darganfuwyd gostyngiad bach yn y llinell a gwnaed trefniadau i ymweld â'r ardal pob tri mis i sicrhau y gweithia'r carthffos fel y dylai a llifo'n iawn. Hefyd, gwelwyd bod cymalau dadleoli yn y llinell' a chwblheid y gwaith o'u cywiro o fewn y mis". Derbyniwyd galwad ffôn heddiw yn dweud y dechreuir y gwaith ar Awst 1af.

b) **Golau Stryd ar Lôn Hawen, Aber-soch**
Derbyniwyd e-bost yn adrodd y dechreuwyd ar y gwaith heddiw ond, yn anffodus, gwrthwynebai perchennog tŷ rhif 11 yn chwyrn ble bwriedid ei osod. O ganlyniad, fe'i symudir tuag ugain medr a olyga mwy o dyllu a chostau ychwanegol i'r Cyngor – derbyniwyd hynny a gofynnwyd a oes hawl gwrthwynebu?

c) **Lloches Bws Nanhoron**
Diolchwyd i EWR am osod y tâp rhybuddio bod 'Mynedfa Isel' i'r uchod; dywed mai chwe troedfedd yw'r uchder.

ch) **Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd – Biniau Halen**
Gohebiaeth yn cynnwys yr wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

1. **cost** – Cyngor Gwynedd yn parhau i'w gwasanaethu – £80.00 (clwstwr o finiau, isafswm o dri)
2. **contractwyr lleol –** gellir trefnu hyn cyn belled â bod ganddo gymhwyster gweithio ar ffyrdd dan Ddeddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd 1991
3. **cost halen gan eraill –** gallai darparu halen yn unig gostio rhwng £45.00 a £57.00 y bin, seiliwyd y costau ar brisiau gan gwmnïau adeiladu lleol
4. **cyfrifoldebau** – pe byddai cynghorau yn defnyddio contractwr lleol eu hunain yna, ni fyddai Cyngor Gwynedd yn gallu cymryd cyfrifoldeb am y bin halen wedyn a byddai'n trosglwyddo i'r cyngor a golygai hyn ei gynnal a chadw a darparu un newydd pe byddai difrod iddo.

Gofynnir am benderfyniad cyn diwedd y mis – penderfynwyd ei dderbyn.

7. MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS

Derbyniwyd yr isod oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy:

a) ***Llwybr Shanty, Pen Bennar***
Penderfynwyd gadael pethau fel maen nhw, h.y. peidio â chymhlethu pethau â dogfennau, gan nad yw'n fwriad gan y perchennog atal neb rhag defnyddio'r llwybr ac mae gan berchnogion y Shanty hawl tramwyo.

b) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Ymddiheurodd y Clerc, er iddi drefnu cyfarfod â DWO am un o'r gloch ar Fehefin 20fed, anghofiodd gysylltu â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd ac EWR i'w gadarnhau. Er hynny, daeth DWO a chafodd sgwrs â'r Cadeirydd am y llwybr uchod. Mynegwyd mai gwastraff arian fyddai gwario arno oherwydd ei agosatrwydd at lwybrau cyfagos eraill a phenderfynwyd ei drafod ymhellach ym mis Medi.

c) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cyril Jones, Mynytho, yn amgáu copi o gofnodion Mehefin 9fed, 1976 a noda:
"Llwybr Pen-y-Bryn – Derbyniwyd llythyr ynghylch y llwybr fod mynedfa newydd yn arwain i'r llwybr a bod plant yn rhuthro i'r ffordd fawr wrth ddod o'r ysgol. Penderfynwyd symud ymlaen i roi atalfa yno."
Dywedodd y Clerc na chafodd gyfle i edrych trwy'r hen ffeil llwybrau cyhoeddus i chwilio am y llythyr nac unrhyw ohebiaeth arall – tasg yn ystod y gwyliau.

ch) ***Torri'r Llwybrau***
Gorffennodd y contractwr dorri llwybrau Aber-soch, Bwlchtocyn a Chilan a dechreuodd rai Mynytho erbyn hyn.

d) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
Ni chafodd DWO gyfle i fynd i'w gweld eto ond, gwyddai am y trafferthion â'r gamfa.

dd) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb oddi wrth Seimon Jones.

e) ***Llwybrau Eraill***
Derbyniwyd cwyn gan Mr. Hough, a arhosa ym maes carafannau'r Rhandir yn flynyddol, bod angen torri'r Clawdd Mawr er mai Categori 5 ydyw – nid yw'n fwriad gan yr Adran Hawliau Tramwy ei wneud eleni oherwydd toriadau ariannol. Gosodir giât newydd ar Lwybr Rhif 27 rhwng Pant Gwyn a Than y Bwlch ac un a ddiflannodd oddi ar Lwybr Rhif 70 o Helsby i Wellington. Torrwyd y gwellt ger Cefn Salfur, yn dilyn cwyn gan y perchennog yr aiff cerddwyr trwy ei gardd.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Rheoliadau Ariannol Newydd Mehefin 2016***
Gweler 4e) uchod.

ii) ***Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig – Deddf Casglu Trethi (Cymru) 2016***
Datganiad i'r Wasg parthed yr uchod.

iii) ***Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd***
Adroddiad ar y darpariaethau a gynigir trwy'r Gymraeg.

iv) ***Cyfraddau Treth Uwch wrth Brynu Ail Gartrefi – Dweud eich Dweud***
Holiadur ar gyfraddau uwch Treth Dir y Dreth Stamp ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol a ddaeth i rym ar Ebrill 1af – dyddiad cau Awst 31ain.

v) ***Cynhadledd ULlC – Hydref 1af, 2016***
Thema'r gynhadledd yw 'Heriau Trawsnewid a Chydweithio i Gynghorau Cymuned a Thref'.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Côd Ymarfer ar Faterion Gweithlu – Ffurflen Fonitro Blynyddol***
Copi o'r uchod.

ii) ***Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft***
Adroddiad, er gwybodaeth, o'r uchod.

c) **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl) Gwynedd a Môn**

i) ***Amserlen Ddrafft yr Archwiliad***
Copi, er gwybodaeth, o 'Nodiadau Canllaw i Sylwadwyr' a baratowyd gan yr Arolygydd, ynghyd â rhaglen y cyfarfod Cyn-gwrandawiad a gynhaliwyd ar Fehefin 14eg ac amserlen ddrafft ar gyfer y sesiynau gwrandawiadau a gychwynna ym mis Medi 2016.
Adroddodd Cyng. Wyn Williams y caniatawyd iddo gael siarad yng ngwrandawiadau mis Medi ar y ddarpariaeth tai tu allan i'r ffin ddatblygu yn Aber-soch yn dilyn gwrthwynebiad yr Archwilydd; ymatebodd yntau drwy ddweud yr etholwyd ef o gymharu â'r Archwilydd a benodwyd i'w swydd.

ii) ***Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol a'r CDLl ar y Cyd – CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg***
Copi o'r uchod – angen ymateb erbyn Awst 12fed.

iii) ***Cyng. Wyn Williams***
Copi o e-bost (er gwybodaeth) a anfonodd yn gwrthod gwahoddiad apelydd lleol iddynt gyfarfod i drafod ei gais oherwydd ei fod yn broses statudol.

iv) ***Cylch yr Iaith – Asesiad Effaith Ieithyddol Annibynnol o'r CDLl***
Dogfennau o'r uchod i gydfynd â'r Ymgynghoriad ar CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Adroddodd Cyng. Wyn Williams ei fod yn Asesiad diddorol a gwerth ei ddarllen.

ch) **Ymchwiliad Gorfodaeth Stryd**
Cynhalia Pwyllgor Craffu Cymunedau y Cyngor ymchwiliad craffu i wasanaethau gorfodaeth stryd y Cyngor. Ystyrir un posibilrwydd o gyflwyno cwmni preifat i gydweithio â thîm gorfodaeth a fyddai'n canolbwyntio ar roi dirwyon ar droseddau ysbwriel. Teimlir bod angen ymateb yn llymach i broblemau gorfodaeth stryd trwy osod dirwyon yn y fan a'r lle. Cytunwyd â'r tri cwestiwn, oni bai fod yr olaf yn mynd i gostio i'r trethdalwyr.

d) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Gwerthu ar Borth Fawr**
Copi o gais i werthu ffrâm yn dal poteli gwin ar y traeth – gwrthwynebwyd.

dd) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Creu Gorchymyn Diogelu Coed – Glyn, Mynytho**
Copi o Orchymyn Diogelu Coed Dros Dro a osodwyd ar goed yn yr eiddo uchod sy'n cymryd lle Gorchymyn Diogelu Coed D30, ynghyd â chopi o Rybudd Diddymu ar gyfer y Gorchymyn hwnnw yn ogystal – dim gwrthwynebiad.

e) **Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol – Galwad Agored**
Poster yn hysbysebu Perchnogaeth Gymunedol, sef y disgwyl cynyddol i gymunedau gymryd cyfrifoldeb am asedau neu wasanaethau lleol yn sgîl toriadau ariannol.

f) **Liz Richardson – Mainc Er Cof**
Cais gan yr uchod i osod mainc er cof am ei diweddar fam-yng-nghyfraith ond, yn dilyn galwad ffôn ganddi, deallwyd mai'r Adran Briffyrdd yw perchennog y tir dan sylw, sef cilfan Tal-y-fan.

ff) **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Adroddiad Blynyddol 2015 – 2016**
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

g) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**
[Datganodd y Clerc ddiddordeb yn y mater hwn a gadawodd y cyfarfod.]
Llythyr oddi wrth yr uchod yn cwyno am agwedd y torrwr beddau yn dilyn claddedigaeth ddiweddar, ynghyd â gofyn am gopi o reolau'r fynwent a chadarnhad mai'r torrwr beddau presennol yw'r unig un sydd â hawl yno neu

a oes rhyddid gofyn i rywun arall. Penderfynwyd anfon copi o'r rheolau ac mai'r torrwr beddau presennol fydd yn parhau â'r gwaith.

ng) **Swyddog Monitro – Ymgynghoriad Teithio Llesol**
Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i rym ym mis Medi 2014. Ymgynghorir ar y llwybrau ychwanegol a archwiliwyd (Llwybrau Ail Gyfnod) tan Awst 15fed. Llwybr Beicio – Llanbedrog Rabar; Sarn Bach – Rabar.

h) **Ceisiadau Ariannol**
Derbyniwyd ceisiadau oddi wrth Bwyllgorau Treialon Cŵn Defaid Aber-soch a Llanengan, Mynwentydd Eglwysi Sant Engan a Sant Cian a Chapel y Bwlch; penderfynwyd cyfrannu £100.00 at y cyntaf a £900.00 yr un i'r mynwentydd – gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

i) **Cyril Jones, Mynytho – Masnachu ar y Stryd yn Aber-soch**
Nododd yn ei lythyr – gweler 7c) uchod – na'r unig gofnod a welodd a allasai fod yn berthnasol yw'r frawddeg foel 'Penderfynwyd anwybyddu cais i agor marchnad yn Aber-soch' yng nghofnodion Chwefror 11eg, 1981.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C15/0904/39/LL	Dymchwel estyniadau presennol ar y tŷ a chodi estyniad unllawr ochr, modurdy a phorth car, ynghyd â chlirio lloriau caled y carafannau ac addasu a chodi estyniad deulawr gromen at adeilad allanol presennol i greu un llety gwyliau – Deucoch Hotel, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0139/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un gromen newydd yn ei le a modurdy ar wahân – Fairfield, Lôn Golff, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0199/39/LL	Codi bolard a giât amddiffynfa fôr – Trac ger Villa Roccasinibalda, Aber-soch – **Gwrthodwyd**
C16/0429/39/TR	Addasiadau i linell drydan – Tir gyferbyn â Pant Gwyn Camping Site, Sarn Bach – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C16/0453/39/LL	Estyniad deulawr cefn – Dryslwyn, 16 Maes Gwydryn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0472/39/LL	Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad unllawr blaen – Clogwyn, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0486/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr at ochr dde yr eiddo (Cynllun Diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd dan Gais Rhif C15/0664/39/LL) – Ger-y-Traeth, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0498/39/AC	Rhyddhau Amod 13 manylion tirlunio o Ganiatâd Cynllunio C10D/0491/39/LL – Graianfryn, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd**
C16/0499/39/AC	Rhyddhau Amod 3 ar Ganiatâd C15/0341/39/LL ar gyfer cymeradwyo cynllun adeiladu rheolaeth amgylcheddol, ynghyd â rhyddhau Amod 5 a ofynnai am gytuno lliw y llithrfa – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin) – **Gwrthodwyd**

C16/0511/39/LL	Cais i ddiwygio Caniatâd Cynllunio C09D/0306/39/LL ar gyfer ail-leoli estyniad deulawr cefn y tŷ i fod yn un unllawr ochr, ynghyd â lleihau maint yr anecs – Llwyn Impia, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0546/39/LL	Codi cwt glan môr yn lle un a ddifrodwyd mewn storm – Cwt Glan Môr 29, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0547/39/LL	Estyniad deulawr cefn a balconi – The Summer House, Lôn Golff, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0552/39/MG	Cais diwygiedig ar gyfer materion a gadwyd yn ôl er mwyn diwygio dyluniad y tŷ – Tir gyferbyn â Cartrefle, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0619/39/LL	Estyniad unllawr cefn ac ymestyn ardal parcio i flaen yr eiddo – Delfryn, 13 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0629/39/LL	Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau presennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C16/0630/39/LL	Dyluniad diwygiedig i gais C15/0296/39/LL er mwyn gosod dwy ffenestr ychwanegol a newid lletur to yng nghefn yr eiddo – Argraig, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0495/39/YM	Estyniad a chynyddu niferoedd ar safle carafannau sefydlog – Maes Carafannau Tŷ Newydd, Sarn Bach
C16/0701/39/YM	Dymchwel tŷ presennol a siale a chodi naw (9) tŷ newydd gyda thri (3) ohonynt yn fforddiadwy – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch
C16/0777/39/YM	Estyniad llawr cyntaf uwchben modurdy to fflat presennol – 240 Cae Du, Aber-soch
C16/0832/39/YM	Gwelliannau ac ymestyn tŷ annedd – The Lodge, Haulfryn, Stryd Fawr, Aber-soch

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Gorffennaf y Clerc (Rh/S 002001), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) CS Aluminium Windows Ltd. – £288.00 (Rh/S 001999 – Handlen drws toiledau ac ymweliad peiriannydd)
b) Siôn Hughes – £4600.00 (Rh/S 002000 – Torri'r Foel a Llain y Pentref)
c) Bacstal Pac – £93.91 (Rh/S 002002 – Gweinyddu Cyflog y Clerc)
ch) Treialon Cŵn Defaid Aber-soch a Llanengan – £100.00 (Rh/S 002003 – Cyfraniad)
d) Mynwentydd Eglwysi Sant Engan a Sant Cian – £1800.00 (Rh/S 002004 – Cyfraniad)
dd) Mynwent Capel y Bwlch, Llanengan – £900.00 (Rh/S 002005 – Cyfraniad)
e) Datrys Consulting Engineers Ltd. – £620.10 (Rh/S 002006 – Costau Ymchwiliad Peirianyddol Coed yr Allt)

f) Npower Business – £9.27 (Debyd Uniongyrchol – Cyflenwad trydan y toiledau)

ff) PWLB – £2220.31 (Debyd Uniongyrchol – Ad-daliad Benthyciad y Toiledau)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £236.55 (£48.20, £29.20, £60.70 a £98.45)

b) Henry Jones (Cricieth) Ltd. – £270.00 (Tâl Claddu)

c) Cyfoeth Naturiol Cymru – £4601.41 (Cyfraniad at dorri'r Foel a Llain y Pentref)

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Medi 14eg, 2016 am saith o'r gloch